# Papur Testun Rhif 17
# Yr Iaith Gymraeg - Crynodeb

## Cyflwyniad
Mae’r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol a chymunedol Sir y Fflint. Mae’r iaith Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio wrth greu polisïau defnydd tir ac yn y broses o benderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio.
Wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl), dylai pob awdurdod cynllunio ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae’r Gymraeg yn rhan o’r adeiladwaith cymdeithasol. Os felly mae angen dangos sut mae anghenion a buddion y Gymraeg wedi’u cymryd i ystyriaeth wrth baratoi’r cynllun.

## Cyd-destun

- Nodyn Cyngor Technegol 20: Yr Iaith Gymraeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2013):
- Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen, Consortiwm Awdurdodau Lleol, (Rhagfyr 2005):
- Iaith Pawb Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog 2003

**Materion yr eir i’r afael â nhw yn y Cynllun**

Caiff polisi ei gynnwys yn y CDLl i roi ystyriaeth i anghenion a buddion yr iaith Gymraeg os yw wedi’i nodi fel elfen bwysig o’r gymuned leol. Gallai’r polisi ymwneud â cheisiadau cynllunio dros drothwy penodol yn y lleoliadau sensitif hyn. Er enghraifft gall 20.8% o boblogaeth Cymru siarad Cymraeg. Yn Sir y Fflint gyfan mae’r ffigwr hwn yn 13.2% o’r boblogaeth. Mae siaradwyr Cymraeg yn byw yn bennaf yn y wardiau canlynol (dros 20% o’r boblogaeth) sydd o ganlyniad efallai yn sensitif i ddatblygiadau sy’n effeithio ar yr iaith Gymraeg: Caerwys 20.3%, Ffynnongroyw 22.9 % Helygain 20.7%, De’r Wyddgrug 30.6 %, Trelawnyd a Gwaenysgor 26.2%, Treuddyn 24.4% a Chwitffordd 20.7%

Yn hytrach na gwrthod ceisiadau cynllunio yn llwyr am resymau ieithyddol yn unig, mae’n bosibl y caiff mesurau lliniaru eu ceisio. Mae’n bosibl y bydd angen cynnwys **Datganiad Cymunedol a Ieithyddol** yn y polisi ar gyfer datblygiadau bach ac **Asesiad o Effaith Cymunedol ac Ieithyddol** mwy cynhwysfawr ar gyfer datblygiadau mwy er mwyn asesu pa fesurau lliniaru sy’n ofynnol. Gallai’r rhain gynnwys:-

Darparu tai fforddiadwy;
- Cyflwyniad graddol cynigion tai;
- Darpariaeth a lleoedd addysg;
- Arwyddion ac enwau lleoedd (gan gynnwys enw marchnata, enwau strydoedd ac arwyddion eraill);
- Mentrau cyflogaeth a hyfforddiant;
- Cyfrannu at gyfleusterau a grwpiau cymunedol;
- Cyllid ar gyfer cyrsiau Cymraeg neu fentrau cysylltiedig eraill sy’n weithredol yn y Gymuned.

.

**Polisïau / Cynigion Defnydd Tir Posibl**

Dylai datblygiadau newydd ymdoddi i anheddleoedd presennol a chadw cymeriad, diwylliant ac ymdeimlad o le sy’n gwneud Sir y Fflint yn arbennig.

Mae’r CDU yn cynnwys Polisi STR 9 Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig sy’n datgan y dylai unrhyw ddatblygiad roi ystyriaeth i’r iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol a’u hatgyfnerthu lle bo hynny’n briodol. Mae canllaw newydd gan Lywodraeth Cymru ar ffurf TAN 20, yn awgrymu y dylid cynnwys polisïau mwy penodol sy’n rhoi mwy o ffocws ar y CDLl er mwyn ymdrin ag effeithiau niweidiol posibl y datblygiad newydd ar yr iaith. Dylai polisïau’r CDLl godi ymwybyddiaeth o’r materion a nodi ble yn y sir y bydd astudiaethau manwl a mesurau lliniaru yn ofynnol.